Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## 1. Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliad 22 - Penderfyniad Caniatâd Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)

**1.1** **Teitl:** Ardal 476, Cloddio am Fwynau Morol

**1.2** **Cymeradwyaeth Reoleiddiol**: Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i diwygiwyd)

**1.3** **Gweithredwyr**: Llanelli Sand Dredging Ltd

**1.4** **Cais am Drwydded Forol Rhif**: MMML1548

**1.5** **Lleoliad**: Ardal 476, Cefnau Nobel, Ffin Allanol Môr Hafren

## 2. Mynegai

**1** – Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i diwygiwyd)
**2** – Mynegai
**3** – Diben
**4** – Cais
**5** – Y Datganiad Amgylcheddol (DA) – Rheoliad Gwaith Morol (MWR) 12 (1)(d)
**6** – Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliad MWR 16(2)(g)
**7** – Ymgynghoriad – Rheoliadau MWR 17(1)(a)(iv)
**8** – Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop
**9** – Materion yn codi i'w hystyried am y Datganiad Amgylcheddol, Cais am Drwydded Forol a sylwadau a dderbyniwyd

## 3. Diben

**3.1** Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli penderfyniad caniatâd EIA o dan Reoliad 22 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i diwygiwyd) (MWR), mewn perthynas â chais am Drwydded Forol (cyf: MMML1548) a gyflwynwyd gan Llanelli Sand Dredging Ltd. Cefnogwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol (MLT) wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais ac mae bellach mewn sefyllfa i gyflwyno penderfyniad caniatâd EIA i Llanelli Sand Dredging Ltd.

**3.2** Yn unol â Rheoliad 22 yr MWR, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol (DA), sylwadau gan gyrff ymgynghorol ac aelodau o'r cyhoedd ac wedi rhoi sylw dyledus i'r deddfwriaethau perthnasol. Yn dilyn cwblhau Asesiad Sgrinio dros Ffiniau, penderfynwyd nad oedd angen ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## 4. Cais

**4.1** Mae Llanelli Sand Dredging Limited yn gwneud cais am Drwydded Forol i barhau i gloddio agregau morol o Ardal 476, Cefnau Nobel. Rhestrir manylion y cais hwn isod;

- Trwydded 15 mlynedd
- Uchafswm o 7.5 miliwn o dunelli
- Uchafswm cloddio blynyddol o 2 miliwn o dunelli
- Graddfa flynyddol gyfartalog o 500,000 o dunelli
- Dull – trelar carthu (*Trailer-suction-hopper-dredge*)
- Ceir ardal dan waharddiad o 500m o boptu cebl telathrebu SOLAS
- Cynhelir monitro gweithredol (PSA a bathymetreg) ym mlynyddoedd 1, 4, 9 a 14 o dymor y drwydded

## 5. Y Datganiad Amgylcheddol (DA) – MWR 12 (1)(d)

**5.1** Amlinellodd y Datganiad Amgylcheddol effeithiau posibl y prosiect arfaethedig, wedi eu trefnu dan y penawdau canlynol:

**5.2** Penodau technegol:
- Yr amgylchedd ffisegol
- Eigioneg
- Geomorffoleg, daeareg a gwaddodion
- Morffoleg arfordirol
- Ansawdd dŵr
- Ansawdd aer
- Asesu effeithiau cronnol
- Crynodeb o effeithiau
- Yr amgylchedd biolegol
- Cyflwyniad
- Plancton
- Ecoleg Gwaelod y Môr (*Benthic ecology*)
- Ecoleg pysgod
- Mamaliaid dyfrol
- Adareg
- Safleoedd wedi'u dynodi
- Effeithiau cronnol
- Crynodeb o effeithiau
- Amgylchedd dynol
- Pysgodfeydd masnachol
- Seilwaith
- Hamdden morol
- Mordwyaeth a llongau
- Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol forwrol
- Asesu effeithiau cronnol
- Crynodeb o effeithiau
- Crynodeb o'r casgliadau
- Effeithiau ar yr amgylchedd ffisegol
- Effeithiau ar yr amgylchedd biolegol
- Effeithiau ar yr amgylchedd dynol

- Casgliadau terfynol
- Monitro ac amodau arfaethedig ar y drwydded
- Tunelledd, lleoliad y cloddio ac ardaloedd dan waharddiad
- Paratoi, rheoli a dosbarthu adroddiadau
- Arolwg cyn cychwyn cloddio
- Cychwyn gweithgarwch o dan y drwydded forol
- Trefniadau gweithio
- Rhaglen fonitro
- Dod â'r cloddio i ben

**5.3**. Ystyrir bod y DA yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1)(d) ac Atodlen 3 yr MWR

## 6. Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliad MWR 16(2)(g)

**6.1** Hysbysebwyd y rhain er mwyn rhoi gwybod i bobl â buddiant am y gwaith arfaethedig ac i roi cyfle i unrhyw bobl â buddiant neu aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno eu sylwadau ar y cais, fel bo'n briodol.

**6.2** Roedd dogfennau'r cais ar gael fel a ganlyn;

- Gosodwyd hysbysiad cyhoeddus, wedi ei drosi, yn y Fishing News ar 3ydd Rhagfyr 2015 a'r 10fed Rhagfyr 2015
- Roedd dogfennau'r cais ar gael i'r cyhoedd yn: Canolfan Ddinesig Dinas a Sir Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN, am 49 diwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.
- Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd

## 7. Ymgynghoriad – Rheoliad MWR 17(1)(a)(iv)

**7.1** Ymgynghorwyd ar y cais am Drwydded Forol ar 30ain Tachwedd 2016 am gyfnod o 42 diwrnod. Fe'i hanfonwyd at y cyrff ymgynghorol canlynol:

**7.2** Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Ystad y Goron (TCE), Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA) Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, Awdurdodau Harbyrau Lleol, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ac Awdurdod Porthladd Castell-nedd, Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol (LBO) Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Gogledd Dyfnaint, Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA), Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Trinity House (TH), Cadw, Llywodraeth Cymru – Y Gangen Bysgodfeydd, Swyddogion Gorfodi Morol (MEO) Natural England (NE), Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

**7.3** Cyflwynwyd sylwadau gan y sefydliadau canlynol: CNC, MCA, Ystad y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Abertawe a Cefas.

**7.4** Cymerwyd nad oedd unrhyw sylwadau gan y rhai na ymatebodd.

## 8. Safleoedd a Ddiogelir dan Gyfraith Ewrop

**8.1** Nid yw'r lleoliad cloddio arfaethedig o fewn Safle a Ddiogelir dan Gyfraith Ewrop.

**8.2** Fodd bynnag, cafodd effeithiau'r cais ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol, ac ar eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth, eu hystyried gan CNC yn ystod y broses o benderfynu ar y drwydded:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin
- AGA Cilfach Tywyn
- ACAa Morol Gogledd Ynys Môn
- ACAa Morol Gorllewin Cymru
- ACAa Morol Dynesfeydd Môr Hafren

**8.3** Cynhaliwyd prawf yr effaith arwyddocaol debygol (TLSE) a gellir dweud na cheir effeithiau arwyddocaol posibl ar nodweddion o'r Safleoedd Ewropeaidd a restrwyd uchod. Daethpwyd i'r casgliad na fydd y cais, o'i ystyried ar ei ben ei hun ac ar y cyd, yn cael effaith andwyol ar gywirdeb y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw.

**8.4** Nodir manylion pellach yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

## 9. Materion yn codi i'w hystyried am y Datganiad Amgylcheddol, Cais am Drwydded Forol a sylwadau a dderbyniwyd

**9.1** Wrth lunio penderfyniad caniatâd EIA Rheoliad 22, rydym wedi ystyried y materion a ddynodwyd yn dilyn ystyried y DA, sylwadau gan gyrff ymgynghorol, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd mewn ymateb gan yr Ymgeisydd.

**9.2** Nodir manylion y materion o bwys a amlygwyd gan y DA a'r broses ymgynghori, a'r graddau y maent wedi eu trin a'u trafod, yn yr adran hon.

**9.3** **Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y sefydliadau canlynol;** Trinity House, Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Swyddog Bioamrywiaeth Lleol (LBO) Castell-nedd Port Talbot, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gogledd Dyfnaint, Y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ymatebodd Natural England i'r broses ymgynghori ac, gan gymryd y gweithredir yr amrywiol brotocolau y cyfeirir atynt yn y DA, nid oedd ganddynt sylwadau pellach i'w cyflwyno.

### 9.4 Safleoedd wedi'u Dynodi

**9.4.1** Mynegodd CNC bryder ynghylch absenoldeb y glustogfa drai'n unig o amgylch y Safle Morol Ewropeaidd (EMS)

**9.4.2** Yn adran 4.4 - Nodir bod ardal dan waharddiad ar gyfer cebl SOLAS, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at glustogfa drai'n unig y Safle Morol Ewropeaidd (EMS) i'r dwyrain o'r Ardal Darged Flaenaf (PTA) a ddynodwyd ar gyfer y drwydded gloddio flaenorol. Yn yr un modd, nid yw wedi ei chynnwys yn amodau arfaethedig y drwydded yn 9.2.1. Ar y llaw arall, mae wedi ei chynnwys ar siart 476-01. Gofynnodd MLT am eglurhad os yw'r ardal dan waharddiad yma i'w thynnu allan ac, os felly, pam nad oes angen hon bellach. Ymatebodd

yr Ymgeisydd fel a ganlyn: Mabwysiadwyd agwedd ragofalus gyda'r drwydded flaenorol ac roedd clustogfa'n berthnasol yn achos cyrion yr ACA. Yn dilyn monitro pellach, daethpwyd i'r casgliad eu bod yn rhagweld y byddai dyddodiad o waddod mân o'r ffrwd yn fach iawn, bydd dyddodiad tywod o'r ffrwd yn digwydd o fewn ffiniau ôl troed y ffrwd ac na fydd yn peri unrhyw newid sylweddol i'r is-haen ac nid ydynt yn rhagweld y bydd ôl troed y gwaith cloddio'n ymestyn i mewn i ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

**9.4.3** Mae CNC yn fodlon gyda'r ymateb yma, nad yw clustogfa drai'r Safle Morol Ewropeaidd (EMS) yn angenrheidiol bellach. Ni fydd MLT yn gosod amod am gynnwys clustogfa drai Safle Morol Ewropeaidd.

**9.4.4** Gofynnodd CNC i forloi llwydion gael eu cynnwys yn yr HRA fel nodweddion o ACA Bae Ceredigion ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Llamhidyddion i'w hystyrid fel rhan o ACAa Morol Dynesfeydd Môr Hafren, Morol Gorllewin Cymru a Morol Gogledd Ynys Môn. Penderfynodd CNC nad ydynt yn ystyried unrhyw effeithiau ychwanegol.

**9.4.5** Diweddarwyd y ddogfen HRA gan MLT i gynnwys y safleoedd morloi llwydion ac ACAa ychwanegol. Dychwelwyd yr HRA at arbenigwyr technegol CNC oedd yn fodlon na welir unrhyw effeithiau andwyol ar gywirdeb y safle.

### 9.5 Ecoleg Gwaelod y Môr (*Benthic ecology*)

**9.5.1** Mae'r ewin mochyn (*Crepidula fornicata)* wedi ei gynnwys ar y rhestr o rywogaethau o dan Atodlen 9. Ni wnaeth craffu ar ganlyniadau arolygon epibenthig o adroddiadau monitro blaenorol ar Ardal 476 ddatgelu unrhyw gofnodion cadarnhaol am y rhywogaeth yma, ond mae posibilrwydd y gallai Ardal 476 gynnwys ewin mochyn gan fod y rhywogaeth bellach yn gyffredin mewn ardaloedd eraill yn Ne Cymru.

**9.5.2** Mae CNC wedi gofyn am gynnwys rhaglen dreillio epibenthig, yn unol â'r monitro blaenorol a gynhaliwyd ar gyfer y drwydded ddiwethaf. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddynodi presenoldeb neu absenoldeb yr ewin mochyn, fel y trafodwyd uchod. Ymatebodd yr Ymgeisydd gan bwysleisio y ceir hyd i'r rhywogaeth ar amrywiol fathau o welyau môr, a'u bod yn fwyaf niferus mewn ardaloedd o wely môr mwdlyd sydd â lleiniau o arwyneb caled, fel cregyn a chobls. Yn ogystal, mae'n well ganddynt ardaloedd sydd wedi eu cysgodi rhag symudiad y tonnau, fel cilfachau, baeau ac aberoedd. Mae Ardal 476 yn dywod a graean tywodlyd, yn bennaf, ac ni wnaeth yr arolygon blaenorol ar Ardal 476 ddynodi presenoldeb y rhywogaeth. Ar sail hyn, maent wedi penderfynu nad oes angen monitro pellach. Mae CNC yn fodlon gyda'r ymateb yma.

**9.5.3** Bydd MLT yn gosod amod yn y drwydded sy'n nodi y dylid gosod unrhyw ddeunydd a ddychwelir i wely'r môr yn yr ardal ble y'i cloddiwyd.

### 9.6 Trefniadau gweithio

**9.6.1** Gofynnodd CNC am eglurhad pellach pam fod cyngor blaenorol gan HR Wallingford yn CIS 2002, oedd yn awgrymu cyfyngu dyfnder y cloddio i -32m CD, bellach wedi ei newid i -36m. Ymatebodd yr Ymgeisydd; Seiliwyd y modelu blaenorol ar gryfder y cwch mwd oedd i'w defnyddio. Mae'r dechnoleg wedi gwella ers hynny a bellach gall y cwch gloddio i -36m islaw'r CD yn yr Ardal Darged Flaenaf. Mae CNC yn fodlon gyda'r ymateb yma.

**9.6.2** Mae MLT yn ystyried ei bod hi'n briodol i osod amod ar y drwydded na cheir cloddio'n is na dyfnder o -36m islaw'r CD.

## 9.7 Pysgodfeydd Masnachol

**9.7.1** Nododd Cefas ei bod yn debyg y bydd defnyddio data ehediadau dros safleoedd a’r System Monitro Llongau (VMS) yn arwain at amcangyfrif rhy isel sylweddol o weithgarwch llongau <10m. Hyd at 2013, roedd VMS ond yn orfodol ar longau dros 15m o hyd. Am y rheswm yma, mae’n bwysig y cynhelir ymgynghoriad â’r diwydiant er mwyn sicrhau y caiff ardlaoedd pysgota allweddol eu hamglyu allai, fel arall, gael eu methu o ddibynnu ar ddata ehediadau dros safleoedd neu VMS. Nid oes unrhyw dystiolaeth o ymgynghori â’r diwydiant ym mhrif destun y DA na’r atodiadau. Dylid cwblhau’r asesiad effaith o eithrio llongau yng nghyd-destun y gynrychiolaeth annigonol posibl yma o’r fflyd bysgota â chewyll. Ymatebodd yr Ymgeisydd: Cydnabyddir a chyfeirir at y cyfyngiadau ar laniadau a data VMS yn y DA (Adran 7.2.1). Casglwyd y wybodaeth ar y llongau i gyd, yn cynnwys llongau llai na 10m o hyd, trwy ymgynghoriadau gyda chymunedau pysgota ar gyfer DA 2004, a’u diweddaru ar gyfer amrywiadau trwydded 2009. Trwy gydol oes y drwydded bresennol darparwyd gwybodaeth pysgota gan sefydliad annibynnol a dynodwyd lefel isel o weithgarwch pysgota. Rydym yn ystyried bod casgliad y DA yn gywir, na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar weithgarwch pysgota o barhau i gloddio yn Ardal 476. Roedd Cefas yn fodlon gyda’r ymateb ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.

**9.7.2** Mae MLT yn fodlon gyda’r ymatebion ac nid ydynt angen unrhyw ddata pysgodfeydd pellach.

## 9.8 Rhaglen Fonitro

**9.8.1** Gofynnodd CNC i gyfarfod gael ei drefnu rhwng Arbenigwyr Technegol CNC, Llanelli Sand Dredging Ltd a’u cynghorwyr, a’r Tîm Trwyddedu Morol (MLT). Cynhaliwyd y cyfarfod hwn dros y ffôn ar Ddydd Iau 31ain Mawrth ac yn bresennol roedd; Laura Tunwell (MLT), Katherine Route-Stephens (MLT), James Moon (CNC), Ian Taylor (Llanelli Sand Dredging Ltd) a Mark Irvine (ERM).

**9.8.2** Mynegodd CNC a Cefas ill dau bryder ynghylch y diffyg monitro yng nghyfnod cynnar tymor y drwydded. Gofynnodd CNC i samplo isfilodol o waelod y môr gael ei gynnal yn ystod blwyddyn gyntaf y gweithgarwch fel y gellir ei ddefnyddio fel set ddata gyfeirio. Yn ogystal â’r samplo isfilodol, gofynnodd CNC am gynnwys rhaglen dreillio epibenthig, yn unol â’r monitro blaenorol a gyflawnwyd ar gyfer y drwydded ddiwethaf. Gofynnodd Cefas i arolwg llawn gael ei gynnal ym mlwyddyn 2 y drwydded er mwyn hysbysu monitro blwyddyn 4 a’r prif adolygiad 5 mlynedd. Ymatebodd yr Ymgeisydd gan bwysleisio bod nifer o arolygon o waelod y môr wedi eu cynnal eisoes, yn cynnwys samplo cipolwg benthig a threillio epibenthig yn 2001 a 2006, yn ogystal ag arolygon monitro yn 2008 a 2010. Gan nad yw treillio a chloddio yn weithgaredd newydd yn Ardal 476 a bod hyn wedi digwydd dros y 10 mlynedd diwethaf, nid ydynt yn ystyried bod angen arolwg ‘gwaelodlin’ newydd arall. Cytunodd yr Ymgeisydd gyda sylwadau Cefas y byddai arolwg bathymetreg llawn yn cael ei gynnal ym mlwyddyn 2. Cafwyd cytundeb rhwng CNC a’r Ymgeisydd yn ystod y cyfarfod dros y ffôn, y byddai arolygon bathymetreg a PSA yn digwydd yn ystod blynyddoedd 1, 4, 9 a 14.

**9.8.3** Roedd MLT yn ystyried ei bod yn dderbyniol i ofyn am raglen arolwg lawn ym mlwyddyn 1, yn hytrach na blwyddyn 2, er mwyn darparu data gwaelodlin ar gyfer monitro i’r dyfodol. Teimlwyd ei bod yn dderbyniol i ofyn am hyn o ystyried bod y cais am drwydded am gyfnod hwy o amser, am fwy o dunelli ac oherwydd bod y rhaglen fonitro wedi ei lleihau’n sylweddol, o’i gymharu â’r drwydded ddiwethaf.

**9.8.4** Cyfeiriodd CNC a Cefas at yr angen i fonitro cydymffurfio â Rhaglen Ranbarthol Monitro Gwely'r Môr (RSMP), unwaith iddi ddod i rym.

**9.8.5** Mae'r Ymgeisydd mewn trafodaethau â Cefas ar hyn o bryd ynghylch manyleb addas ar gyfer arddull RSMP tuag at fonitro yn Ardal 476. Fel rhan o'r broses honno, mae'r arolygon blaenorol yn cael eu hadolygu er mwyn cynhyrchu dadansoddiad o unrhyw fylchau fydd angen eu llanw gan arolygon i'r dyfodol. Roedd CNC a Cefas yn fodlon y bydd yr Ymgeisydd yn mabwysiadu'r arddull RSMP. Yn ystod y cyfarfod dros y ffôn, mynegodd yr Ymgeisydd bryderon ynghylch gorfod ail-fonitro os na ddaw'r arddull i rym cyn i'r drwydded gael ei chyhoeddi. Yn dilyn gohebiaeth bellach gyda CNC derbyniwyd, os nad yw'r arddull mewn grym ar adeg cyhoeddi'r drwydded, na fydd disgwyl i'r Ymgeisydd gynnal monitro pellach tan flwyddyn 4 o dymor y drwydded.

**9.8.6** Derbyniodd MLT wybodaeth gan yr Ymgeisydd a Keith Cooper oedd yn amlinellu patrwm yr arolwg ar gyfer arddull RSMP ar Gefnau Nobel. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Arbenigwyr Technegol CNC, aelodau o'r MLT a Keith Cooper i drafod mabwysiadu'r arddull yma ar gyfer Ardal 476, Cefnau Nobel. Roedd Arbenigwyr Technegol CNC, yn ogystal â'r Ymgeisydd, yn cefnogi mabwysiadu'r arddull.

**9.8.7** Diweddarodd MLT yr amodau monitro i adlewyrchu cynllun yr arolwg, fel yr ysgrifennwyd gan Keith Cooper.

**9.8.8** Awgrymodd CNC a Chyngor Dinas a Sir Abertawe y dylid ehangu cwmpawd yr arolwg, i gynnwys yr ardal sensitif i'r Gogledd o'r PTA. Mae bwriadau monitro yn nhabl 9.4 yn awgrymu terfyn allanol 500m o led o amgylch ardaloedd cloddio gweithredol ond, o gofio y bwriedir lleihau pa mor aml y cynhelir arolygon i 3 arolwg dros oes y drwydded (blynyddoedd 4, 9 a 14), gofynnodd CNC i faint yr ardal gael ei hymestyn tua'r gogledd. Byddai hyn yn galluogi'r adolygwr i ennill gwell dealltwriaeth o unrhyw newidiadau morffolegol yn yr ardaloedd mwy sensitif i'r Gogledd, y tu hwnt i ardal y drwydded. Nid oedd yr Ymgeisydd yn deall yn iawn pam fod yr ardal i'r gogledd yn cael ei hystyried fel ardal 'sensitif'. Nid yw'n cytuno, yng nghyd-destun sefydlogrwydd gwely'r môr, bod yr ardal yn 'sensitif' mewn unrhyw fodd. Nid yw'n credu bod unrhyw gyfiawnhad am ehangu'r ardal tua'r gogledd.

Trafodwyd y mater yn ystod y cyfarfod dros y ffôn a chytunodd yr Ymgeisydd i ymestyn y monitro tua'r gogledd, i 1000m y tu hwnt i ôl troed cronnol y cloddio. Fe wnaeth CNC gyfiawnhau'r cais yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn atodiad B y DA (astudiaeth effaith ar yr arfordir), y cynnydd yn hyd oes y drwydded, y cynnydd mewn tunelli a'r lleihad mewn monitro gweithredol o gymharu â'r drwydded ddiwethaf.

**9.8.8** Roedd MLT yn ystyried ei bod yn briodol i osod amod y bydd ardal yr arolwg yn 1000m i'r gogledd, y tu hwnt i ôl troed cronnol y cloddio, fel yr hysbyswyd gan ddata EMS y 4 blynedd flaenorol.

## 9.10 Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol forwrol

**9.10.1** Awgrymodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) y gallai anghysondebau a ddynodwyd yn y DA (MS-1001-5) fod yn gorff awyren Spitfire BL989 sydd wedi ei gladdu'n rhannol, y gwyddom iddi ddod i lawr yn yr ardal. Mae'r RCHAMW wedi gwneud cais i'r anghysondebau hyn gael eu gwirio i gadarnhau beth yn union yw'r nodweddion yma trwy arolygon sy'n defnyddio plymwyr, ROV neu gamera tanddwr. Mae'r RCHAMW wedi datgan os yw'r anghysondebau hyn o ddiddordeb archeolegol, yna dylid rhoi rhaglen monitro gwely môr parhaus yn ei lle. Roedd yr Ymgeisydd yn amharod i gyflawni unrhyw wiriad ymarferol ar y 3 anghysondeb oherwydd, unwaith iddynt gael eu mapio, daeth yn

amlwg eu bod yn gorwedd y tu allan i'r ardal gloddio weithredol bresennol, 100m i'r dwyrain o Ardal Gloddio Weithredol 3 a 350m i'r dwyrain o Ardal Gloddio Weithredol arfaethedig 3. Anfonwyd ymateb yr Ymgeisydd ymlaen at RCHMW oedd ddim am dynnu eu cais am wiriad ymarferol yn ôl. Mae RCAHMW wedi awgrymu y gellid mabwysiadu agwedd gweithredu rhagofalus ble byddai adroddiadau bathymetreg, a gyflwynir ym mlynyddoedd 2, 6, 10 a 15 y drwydded, yn cael eu hanfon at ymgynghorydd archeolegol LSDL i'w hadolygu a chaniatáu eu cymharu.

**9.10.2** Mae MLT yn ystyried ei bod yn afresymol i ofyn am wiriad ymarferol o'r 3 anghysondeb a amlygwyd yn y DA. Mae hyn am y rheswm nad yw'r anghysondebau wedi eu lleoli yn yr ardal gloddio weithredol. Os nad ydynt o fewn yr ardal gloddio weithredol mae'n aneglur beth fyddai'r effeithiau ar y Spitfire. Mae MLT yn fodlon cynnwys RCHAMW mewn ymgynghoriadau ar yr adroddiadau monitro er mwyn cofnodi unrhyw symudiadau neu newidiadau yn yr ardal.

**9.10.3** Gofynnodd RCHAMW i LSDL ddarparu manylion i CNC am ba hyfforddiant uniongyrchol y maent wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth Gweithredu Protocolau ac y dylai CNC nodi amod yn y drwydded newydd y dylid diweddaru hyfforddiant bob 5 mlynedd.

**9.10.4** Ni fydd MLT yn holi am fanylion hyfforddiant gan yr Ymgeisydd gan nad yw hyn yn rhan o'u rôl yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Mae MLT wedi gofyn i RCHAMW awgrymu darparwyr gwasanaethau hyfforddiant y gall MLT eu cynnwys yn y llythyr eglurhaol a gyhoeddir gyda'r drwydded.

## Gwerthusiad Rheoliadol a Phenderfyniad Caniatâd Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)

Wrth ystyried y cais i gloddio am fwynau morol yn Ardal 476, mae'r canlynol wedi eu hystyried:

- Y DA, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r
- Sylwadau a dderbyniwyd.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu bod effeithiau amgylcheddol y gwaith o gloddio am fwynau morol wedi eu dynodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol ac y gellir sicrhau mesurau lliniaru fyddai'n ddigonol er mwyn caniatáu i'r cais am drwydded i gloddio gael ei chymeradwyo.

## Cadarnhad

**Arwyddwyd:**

**Laura Tunwell – Swyddog Trwyddedu Morol**

**Dyddiad**: 16 Mehefin 2016

**Cymeradwywyd gan**:

**Adam Cooper – Uwch-swyddog Trwyddedu (yn gweithredu ar ran Arweinydd y Tîm dan y Cynllun Dirprwyo)**

**Dyddiad**: 17 Mehefin 2016